

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-00(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Ionawr 2000

Amser: 1.30pm - 4.15pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol: Aelodau

Kirsty Williams (Cadeirydd) Aberhonddu & Sir Drefaldwyn

Geraint Davies Rhondda

Brian Gibbons Aberafan

Jane Hutt (AS) Bro Morgannwg

Helen Mary Jones Llanelli

Dai Lloyd De Orllewin Cymru

Gwenda Thomas Castell Nedd

Yn bresennol

Y Fonesig Deirdre Hine Cadeirydd, Comisiwn Gwella Iechyd

Dr Peter Homa Cyfarwyddwr, Comisiwn Gwella Iechyd

Yr Athro Glyn Lewis Cadeirydd, Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion

Dr Jennifer Lloyd, Cadeirydd, Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Yr Athro Richard Williams Ymgynghorydd Proffesiynol, Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Swyddogion Preseennol

| | |
|--------------------|--|
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Peter Gregory | Cyfarwyddwr NHS Cymru |
| Dr Bernadette Fuge | Adran Ansawdd NHS |
| Dr Sarah Watkins | Grŵp Arbennigwyr Iechyd |
| John Sweeney | Adran Sylfaenol a Iechyd Cymunedau |
| John Carter | Adran Bolisi Gofal Cymdeithasol |
| Pat Vogt | Arolygaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Mike Tonkin | Adran Nyrsio |
| | |
| Jane Westlake | Clerc |
| Laura Williams | Dirprwy Glerc |

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan:

David Melding, De Cymru Canolog; Lynne Neagle, Tor-faen; a Peter Rogers, Gogledd Cymru. Ni chafwyd eilyddion

1.2 Gwnaeth Jane Hutt ddatganiad ynglŷn â'r digwyddiad yn Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty 'r Tywysog Phillip, Llanelli. Mae testun cyfan y datganiad wedi ei atodi i'r cofnodion yn Atodiad A.

1.3 Ar ran y pwyllgor, mynegodd Kirsty Williams ei thristwch a gofid ynghylch y digwyddiad a chynigiodd ei chydymdeimlad i'r claf a'i deulu. Cymeradwyodd Helen Mary Jones sylwadau'r Ysgrifennydd Cynulliad a chanmolodd yr ymddiriedolaeth am eu hymateb prydlon a phriodol i'r sefyllfa.

Eitem 2: Cyflwyniad gan y Comisiwn Gwella Iechyd

Paper: HSS-02-00(p.1)

Cyflwyniad

2.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Fonesig Deidre Hine a Dr Pete Homa i gyflwyno'r Comisiwn Gwella Iechyd (CHI), a sefydlwyd fis Tachwedd diwethaf gan Ddeddf Iechyd 1999 ac roedd i fod i ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2000. Atodir copi o'r cyflwyniad at HSS-02-00(p.1).

2.2 Prif fwriad y Comisiwn Gwella Iechyd oedd gwella ansawdd y gofal a geir yn yr NHS ac i leihau amrywiadau drwy Gymru a Lloegr. Byddai'n cyflawni hyn trwy ystod o raglenni arolwg sefydliadol a chenedlaethol.

2.3 Byddai CHI yn cynorthwyo datblygiad a lledaeniad arfer da a hefyd yn darparu cefnogaeth a chymorth ar gyfer archwiliadau ac ymholiadau i fethiannau systemau o fewn yr NHS. Profiad y claf fyddai canolbwynt ei waith bob tro.

2.4 Byddai'r Comisiwn Gwella Iechyd yn atebol yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â'r Adran Iechyd. Penodwyd un o'r comisiynwyr, Yr Athro Ian Cameron, gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

2.5 Gwnaeth Y Fonesig Deirdre Hine a Dr Peter Homa y sylwadau canlynol mewn ymateb i'r sylwadau a'r cwestiynau a gododd y pwyllgor:

- i. Roedd CHI yn cydweithio â sefydliadau eraill sydd o bosibl, â'u gweithgareddau'n gorgyffwrdd, i nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau ei gilydd.
- ii. Ni chafodd diffygion yn narpariaeth y gwasanaeth nac arferion ansawdd gwael eu hachosi o reidrwydd gan adnoddau annigonol. Byddai CHI yn nodi ardaloedd lle gallai arferion gwahanol, neu well, wella'r gwasanaeth.
- iii. Byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda sefydliadau'r NHS. Byddai rhybudd digonol am unrhyw arolygon rheolaeth glinigol, a fyddai'n canolbwyntio ar wella gofal cleifion. Y nod fyddai i sefydliadau adnabod yr angen am welliant, ac y byddant am newid.
- iv. Byddai CHI yn cynnal cyfarfodydd misol yn gyhoeddus a hefyd yn darparu mynediad i'r cyhoedd trwy eu safle ar y rhyngwrdd. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu ymateb i bob cais am help neu ymyrraeth, ond y byddai'n cyfeirio gohebiaeth at sefydliadau mwy priodol.
- v. Byddai'r Comisiwn yn dechrau ar ei raglen arolwg yn y sector eilaidd a byddai'n edrych ar sefydliadau gofal cynradd trwy grwpiau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau gofal cynradd. Yn y pen draw, ei amcan fyddai arolygu "economïau iechyd cyfan".
- vi. Y gobaith oedd na fyddai angen gorfodi argymhellion ar gyfer newidiadau a gwelliannau.
Byddai sefydliadau yn cael eu hannog i adnabod y buddiannau posibl y gellid eu cyflawni trwy dystiolaeth yn hytrach na thrwy barn.
- vii. Byddai barn y cleifion a'r gymuned leol yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r gallu i

ddarparu gwasanaethau gwledig.

2.6 Diolchodd Jane Hutt i'r Fonesig Deirdre Hine a Dr Pete Homa am fod yn bresennol yn y cyfarfod a chroesawodd yr ymrwymiad amlwg i fuddiannau Cymru a ddangosir gan y Comisiwn Gwella Iechyd.

Eitem 3: Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion

Papur: HSS-03-00(p.1)

Cyflwyniad

3.1 Gofynnwyd i'r pwyllgor roi sylwadau ar y drafft Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion, cyn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

3.2 Cyflwynodd Yr Athro Glyn Lewis y ddogfen a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad gwasanaethau a gyfeirir at y cyhoedd. Tynnodd sylw'r aelodau at y prif bwyntiau canlynol:

- iechyd y cyhoedd a rôl y gymuned ehangach i leihau stigma iechyd meddwl oedd i'w gweld yn y Strategaeth ;
- pwysigrwydd cynllunio ar y cyd a chomisiynu gwasanaethau;
- pwysigrwydd arferion gweithio ar y cyd a ddylai gynnwys sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol;
- pwysigrwydd buddsoddi mewn staff a darparu hyfforddiant am oes i bob gweithiwr iechyd meddwl;
- ymrymuso defnyddwyr a gofalwyr;
- yr angen am adnoddau ychwanegol i leihau'r pwysedd ar y gweithlu ac i wella canlyniadau ar gyfer cleifion; a
- datblygu fframwaith strategol ar gyfer Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

Prif Bwyntiau'r Draffodaeth

3.3 Gwahoddwyd aelodau i gynnig gwelliannau neu feysydd y gellid datblygu neu gryfhau'r strategaeth ymhellach. Cafwyd y sylwadau canlynol:

i. At ei gilydd, roedd y strategaeth yn fan cychwyn gwych, ond gallai'r weledigaeth hir-

dymor fod yn fwy uchelgeisiol, gyda gwasanaethau a safonau "cystal â neu'n well" yn hytrach na "o leiaf cystal â gorau pobman arall" (cyflwyniad, paragraff terfynol) "o leiaf cystal â'r rheiny a bennwyd ar gyfer Lloegr" (Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol, paragraff 1).

ii. Roedd hyrwyddo iechyd meddwl ac atal salwch y meddwl yn faterion allweddol. Roedd

nodi pob ffurf o salwch meddwl yn hanfodol.

iii. Dylai pobl yng Nghymru allu cyrchu gwasanaethau "trwy eu dewis iaith" yn hytrach na "eu

iaith cyntaf" (Cyfle Cyfartal, paragraff 4).

iv. Dylid newid "pobl sydd ag anableddau" i "bobl anabl".

v. Gall perspectif cryfach fodoli ar wasanaethau i ferched, yn arbennig mewn perthynas â chategorïau salwch meddwl lle mai merched yw'r cleifion pennaf. Mae darparu wardiau un rhyw yn hanfodol.

vi. Gall buddiannau therapiwtig cynwysoldeb a chyswllt cymdeithasol gael eu trafod yn fanylach trwy'r ddogfen. Mae'n rhaid i'r rhyddid i ddewis ar ran y cleifion fodoli ar draws pob gwasanaeth seiciatrig a iechyd y meddwl.

vii. Roedd diffyg gwasanaethau a darpariaeth gofal ysbaid ar gyfer pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol.

i. Roedd angen i'r ddadl o blaid cyflwyno gweithwyr cyswllt neu arbenigwyr cyswllt mewn

Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (Adnoddau Ariannol, paragraff 3) fod yn

gryfach. Dylid ei ystyried ochr yn ochr ag opsiynau eraill, fel integreiddio gwasanaethau

iechyd y meddwl ag Ysbytai Cyffredin Rhanbarth.

ii. Roedd rôl Grwpiau Iechyd Lleol yn parhau i ddatblygu. Nid oedd unrhyw gynlluniau am

ymddiriedolaethau gofal cynradd.

iii. Mae dyfodol y Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion yn dibynnu ar ddarparu adnoddau

digonol. Roedd angen cryfhau'r ddadl o blaid cyflogi staff ychwanegol.

iv. Mae angen ymdrin â chyflwr materol ysbytai meddwl a chyfleusterau cleifion mewnol.

Maent yn dueddol o fod yn wael iawn, a allai waethygu salwch y meddwl yn hytrach na'i

wella. Dylai chyfleusterau gofal diwrnod fod yn lleol ac yn hawdd eu cyrchu.

xii. Mae angen ymdrin yn realistig ag anghenion arbennig cleifion sydd â phlant ifanc.

Casgliadau

3.4 Dywedodd Jane Hutt bod y strategaeth iechyd meddwl yn rhan o strategaeth fwy, gyfannol i wella iechyd cyffredinol y genedl.

3.5 Byddai'r strategaeth yn datblygu ymagwedd yn seiliedig ar y gymuned tuag at ddarparu gwasanaethau ac i ymdrin â materion cynwysoldeb cymdeithasol a chyfle cyfartal. Byddai hefyd yn effeithio ar Strategaeth Adnoddau Dynol yr NHS a byddai iddi oblygiadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Gwella Iechyd.

3.6 Croesawodd y Cadeirydd sylwadau'r aelodau a dywedodd eu bod yn gyfraniad adeiladol iawn i waith parhaus y Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion.

Gweithred

3.7 Byddai awgrymiadau'r aelodau yn cael eu bwydo i'r Grë p Ymgynghori Annibynnol wedi iddynt ailgynnull, a fyddai'n gweithio ar frys i ehangu meysydd allweddol o'r ddogfen. Bydd y gwaith ychwanegol hwn yn cymryd tua 4-6 wythnos ac yna bydd y ddogfen derfynol yn amodol ar ymarfer ymgynghorol o dri mis.

3.8 Byddid yn ymgynghori ag aelodau ynglŷn â'r rhestr ymgynghorol a gynigiwyd.

Eitem 4: Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Papur: HSS-02-00(p.3)

Cyflwyniad

4.1 Gofynnwyd i'r pwyllgor roi sylwadau ar Strategaeth ddrafft Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

4.2 Dywedodd Dr Jennifer Lloyd wrth y pwyllgor y byddai'r strategaeth yn fan cychwyn ac yn ddechreuad datblygu polisiau yn yr ardal hon. Roedd darpariaeth gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau CAMH ledled Cymru yn fratiog, ond roedd nifer o enghreifftiau o arfer da y gellid adeiladu arnynt. Dylai gwasanaethau lleol gwrdd â'r angen lleol.

4.3 Roedd y derminoleg a ddefnyddwyd mewn addysg ac iechyd yn wahanol. Roedd angen cytuno ar dermau cyffredin.

4.4 Roedd angen grë p ymgynghorol aml-ddisgyblaeth i alluogi datblygiad a gweithrediad strategaeth gydlynol, i gydlynu materion tebyg i hyfforddiant, darpariaeth gwasanaethau ar y cyd, rhannu cyllidebau a chynnal datblygiad.

4.5 Roedd angen mapio darpariaeth gwasanaethau a'r angen yng Nghymru.

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

4.6 Gofynnwyd i aelodau i gynnig gwelliannau neu feysydd y gellid datblygu neu gryfhau'r strategaeth ymhellach. Cafwyd y sylwadau canlynol:

i. Croesawyd yr ymagwedd eang a gymerir gan y strategaeth. Roedd nifer o faterion traws-bynciaol, fel addysg a thai, a phwysig oedd cynnwys pwyllgorau pwnc eraill i sicrhau cysondeb polisi.

ii. Dylai plant mewn gofal fod yn flaenoriaeth i'r strategaeth CAHM. Dylid hefyd ei gysylltu

â'r strategaeth iechyd meddwl oedolion.

iii. Gofynnwyd am wasanaethau ar gyfer mewnfudwyr ifanc a cheiswyr lloches gwleidyddol.

Penodwyd swyddog i'r Cynulliad Cenedlaethol i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros faterion

lloches gwleidyddol. Mae'n rhaid ymdrin ag anghenion grwpiau eraill, fel dynion a

merched du ifanc.

iv. Dylai defnyddwyr y gwasanaethau, yn hytrach na'r darparwyr, fod yn ganolbwynt wrth

ddatblygu gwasanaethau, i helpu i gael gwared ar ffiniau ac i gynorthwyo gweithio ar y

cyd.

v. Caniataodd y Ddeddf Iechyd (1999) fwy o hyblygrwydd rhwng iechyd a gwasanaethau

cymdeithasol, ond pe na châi gweithio a chomisiynu ar y cyd a rhannu cyllidebau eu

gwireddu, dylid ystyried eu gorfodi.

vi. Roedd hi'n bwysig cynnwys y sector gwirfoddol fel partner cyfartal ac i ymrwymo

sefydliadau gwirfoddol mewn mentrau hyfforddi am oes.

vii. Roedd angen strategaeth recriwtio a hyfforddi i sicrhau bod digon o staff ar gael i

gyflawni'r strategaeth CAMH. Nid oedd digon o bobl broffesiynol CAMH yn cael eu

hyfforddi yng Nghymru

i. Roedd natur eang nifer o'r problemau a wynebir gan bobl ifanc yn dangos bod nifer o broblemau cymdeithasol dwfn yn bodoli y mae'n rhaid ymdrin â hwy. Mae'n rhaid ymdrin â'r hyn sydd wrth wraidd y broblem yn ogystal â'r symptomau.

ii. Nid oedd yr adnoddau a ddyranwyd i wasanaethau CAMH yn ddigonol o'u cymharu â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion.

7. Byddai'r ymarfer ymgynghorol yn ddrud ac yn cynnwys pob sefydliad plant yn ogystal â'r

dosbarthiad arferol i'r adrannau iechyd, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

8. Cydnabuwyd bod ymgynhori yn fwrn ar sefydliadau (yn arbennig o fewn y sector

gwirfoddol). Awgrymwyd y dylid cyhoeddi'r ddwy strategaeth gyda'i gilydd, ond dylid rhoi

digonedd o amser i sefydliadau roi eu hymateb.

Casgliadau a Gweithrediadau

9. Pwysleisiodd Jane Hutt bwysigrwydd gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau llwyddiant y strategaeth. Mae buddsoddi mewn atal salwch meddwl yn ogystal â thriniaeth yn hanfodol a byddai angen i'r pwyllgor ystyried hyn wrth drafod dyraniad y gyllideb. Annogwyd yr aelodau i feddwl am ffyrdd y gellid datblygu'r grë p Aml-ddisgyblaeth a'i symud ymlaen, yn ôl awgrym Dr Lloyd.

4.10 Awgrymodd Kirsty Williams y dylai pwyllgorau pwnc eraill ystyried effaith y strategaethau Iechyd Meddwl Oedolion a CAMH ar eu meysydd cyfrifoldeb. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys y sector gwirfoddol a'u galluogi i fod yn wir bartneriaid.

4.11 Roedd yr amserlen ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn debyg i'r Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion. Diolchodd Dr Lloyd y Pwyllgor am eu sylwadau a'u hawgrymiadau adeiladol. Byddai'n cyflwyno'r rhain i'r Grë p Ymgynghorol, a fyddai'n ailymgynnull ar 9 Chwefror i ehangu a choethi'r ddogfen bresennol.

Eitem 5: Cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf

Papurau: HSS-13-99(min) and HSS-01-00(min)

HSS-13-99, 8 Rhagfyr 1999

5.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod hwn yn gofnod cywir heb unrhyw ddiwygiadau.

Materion a gododd

5.2 Gofynnwyd am y cynnydd ar ddatblygu pecyn llenyddiaeth i ategu'r drafodaeth ar

ehangu profion llygaid am ddim. Cadarnhaodd Dr Hall bod hyn yn cael ei ffurfio ar hyn o bryd ac y byddai'n rhoi gwybod i'r aelodau pryd y byddai hyn ar gael.

5.3 Hysbyswyd pwyllgorau pwnc eraill o'r Strategaeth Gofalwyr (HSS-12-99, Eitem 5) ac roedd clerciaid yn cysylltu â Chadeiryddion. Ni chafwyd ymatebion ffurfiol hyd yn hyn.

5.4 Daethpwyd â'r Strategaeth Iechyd Rhywiol (HSS-12-99, Eitem 4) at sylw Cadeirydd y Pwyllgor Addysg Cyn-16, Ysgol a Dysgu Cynnar. Ni chafwyd ymateb ffurfiol ar hyn o bryd.

5.5 Gofynnwyd i'r WLGA ymateb i ymgynghoriad y Comisiynydd Plant (HSS-13-99, Eitem 5). Hwyrach y gofynnir iddynt gyflwyno tystiolaeth lafar.

5.6 Roedd pwyntiau gweithredu yn gysylltiedig â Rhaglenni Gwella Iechyd (HSS-13-99, Eitem 6) mewn llaw. Roedd Jane Hutt wedi cwrdd â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yr wythnos flaenorol.

HSS-01-00, 19 Ionawr 2000

5.7 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod hwn yn gofnod cywir heb unrhyw newidiadau.

Atodiad A: Datganiad gan Jane Hutt ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Digwyddiad yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli

Fe'm hysbyswyd o ddigwyddiad trychinebus yr wythnos hon yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli, yn ymwneud â llawdriniaeth glinigol i dynnu aren afiach o glaf gwrywaidd. Rwyf ar ddeall, yn ystod y llawdriniaeth ddydd Llun 24 Ionawr, y tynnwyd yr aren iach mewn camgymeriad, gan adael y claf ag un aren afiach.

Mae'n boendod meddwl enbyd gennyf y gallai'r fath gamgymeriad ddigwydd a hoffwn ddatgan fy nghydymdeimlad am y trawma a'r gofid y mae'r digwyddiad hyn wedi ei achosi i'r claf a'i deulu. Rwyf yn ymwybodol bod y gr yn ddifrifol wael o hyd, a gallaf ei sicrhau ef a'i deulu y bydd NHS Cymru yn ymchwilio i'r holl opsiynau posibl i'w drin ymhellach.

Canfuwyd y camgymeriad wedi'r llawdriniaeth, a chymerodd Ymddiriedolaeth NHS Caerfyrddin gamau priodol ar unwaith, yn ôl eu dyletswydd gyfreithiol, a gweithredu'r weithdrefn arferol ar gyfer digwyddiad niweidiol, yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar y mater i swyddogion y Cynulliad. Fel rhan o'r ymateb uniongyrchol hwn, mae'r ymddiriedolaeth wedi sefydlu panel o uwch glinigwyr arbenigol i edrych ar y broses gyfan a arweiniodd at y camgymeriad. Er bod yr ymddiriedolaeth yn cynnal hyn mor brydlon â phosibl, bydd yn cymryd amser gan ei fod yn holl bwysig y caiff ei gynnal mewn modd trylwyr, proffesiynol a theg. Mae'r ymddiriedolaeth a swyddogion y Cynulliad wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i mi. Yn ogystal â hyn, ar gais yr ymddiriedolaeth, mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi cytuno i gynnal ymchwiliad annibynnol ac fe fydd yn cyflwyno adroddiad i'r ymddiriedolaeth ac yn cynnig unrhyw awgrymiadau ar unrhyw gamau y dylid eu cymryd. Bydd hyn yn cychwyn maes o law.

Fel rhan o'r weithdrefn arferol, mae'r tîm llawfeddygol a oedd yn gyfrifol am y llawdriniaeth wedi eu hatal rhag ymwneud â dyletswyddau cleifion mewnol. Mae'r panel ymchwilio wedi cynghori na fyddai diogelwch y cleifion yn cael ei gyfaddawdu pe byddai aelodau'r tîm yn parhau i berfformio dyletswyddau diagnostig a chleifion allanol. Diogelwch y cleifion sydd o'r pwys mwyaf ac mae'r ymddiriedolaeth wedi fy sicrhau bod y gweithdrefnau digwyddiadau wedi eu llunio i sicrhau hyn.

Mae trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer y cleifion oedd i fod o dan ofal y tîm i dderbyn triniaeth gan glinigwyr eraill yn yr ymddiriedolaeth ac mewn mannau eraill.

Byddaf yn cael yr adroddiad cyntaf gan yr ymddiriedolaeth yn y man a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo'n bosibl.

| Cyfarfod ac Eitem ar yr Agenda | Pwynt Gweithredu | Gweithredu Gan ac Amser Terfyn (os o gwbl) | Sylwadau | Cyflawnwyd |
|--------------------------------|---|--|--|------------|
| HSS-11-99 (18 .11. 99) | | | | |
| Eitem 4 | <p>Taliadau Uniongyrchol ac ILS:</p> <p>i. Arolwg o Ddeddf Gofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) 1996.</p> <p>Ymgynghorir â'r Pwyllgor ar argymhellion i adolygu canllawiau/rheoliadau.</p> | i. Yr Ysgrifennydd Cynulliad/Clerc | Ymrwymiad y papur gwyn - darperir gwybodaeth bellach ar amserlenni yn y flwyddyn newydd. | |
| | ii. Y Pwyllgor i weld adroddiad o werthusiad project Anabledd Cymru | ii. Yr Ysgrifennydd Cynulliad/Clerc | Mae Anabledd Cymru yn cynghori na fydd ei adroddiad ar gael tan y flwyddyn newydd. | |

HSS-12-99 (24.11.99)

| | | | | |
|----------------|---|------------|---|--|
| Eitem 2 | Adroddiad Misol yr Ysgrifennydd Cynulliad ii. Cynghorir y Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yr adroddiad ar achos Derek Brushett ar gael. | Clerc/SSIW | Disgwylir yr adroddiad ym mis Chwefror. | |
|----------------|---|------------|---|--|

HSS-13-99 (08.12.99)

| | | | | |
|----------------|---|--------------|---|--|
| Eitem 2 | Adroddiad Blynyddol PSM: Aelodau'r pwyllgor i dderbyn: i. Manylion strategaethau iechyd galwedigaethol a chyfraniad undebau llafur i'w darparu i'r Pwyllgor. | Dr Hall, PSM | Gwybodaeth i'w darparu mewn papur i'w nodi. | |
|----------------|---|--------------|---|--|

| | | | | |
|----------------|--|--|--|--|
| Eitem 3 | Ymgynghoriad Pellach ar Ddyraniadau Cyllideb: Yr YC i ysgrifennu at David Melding am y Rhaglenni Gwario Cyfalaf. | Yr Ysgrifennydd Cynulliad ac Adain Gyllid yr NHS | | |
|----------------|--|--|--|--|

| | | | | |
|----------------|---|---|---|--|
| Eitem 4 | Diddordeb y Pwyllgor HSS yn Rhaglen Deddfwriaeth y Llywodraeth Yr YC i hysbysu'r pwyllgor ar ddatblygiad mesurau, drwy adroddiadau misol. | Yr Ysgrifennydd Cynulliad, Adain Polisi Gofal Cymdeithasol a'r Adain Plant a Theuluoedd | Adroddiad misol nesaf: HSS-04-00 (16.02.00) | |
|----------------|---|---|---|--|

| | | | | |
|----------------|--|---------------------------|--|--|
| Eitem 6 | Rhaglenni Gwella Iechyd: iii. Yr YC i ysgrifennu at gadeiryddion Awdurdodau Iechyd ac ymddiriedolaethau i'w hannog i fabwysiadu'r Sialens. | Yr Ysgrifennydd Cynulliad | | |
|----------------|--|---------------------------|--|--|

HSS-01-00 (19.01.00)

| | | | | |
|----------------|---|--|---|--|
| Eitem 1 | Adroddiad Misol yr Ysgrifennydd Cynulliad Ystyriaeth i'w roi i drafodaeth y Pwyllgor o gau Canolfan Adsefydlu Talygarn. | Y Cadeirydd i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cynulliad a siaradwyr partion eraill | Blaen-Raglen Gwaith Cyfarfod â llefarwyr y pleidiau - 01.02.00 | |
|----------------|---|--|---|--|

| | | | |
|-----------------------------|--|---|---|
| Eitem 4 | Gofal Hirdymor o'r Henoed: Cynghorir y pwyllgor ar bwerau'r Cynulliad mewn perthynas â'r diffiniadau o ofal nyrsio a gofal personol | Yr Ysgrifennydd Cynulliad | |
| HSS-02-00 (27.01.00) | | | |
| | Digwyddiad yn Ysbyty Tywysog Phillip Adroddiad pellach i'r Pwyllgor | Yr Ysgrifennydd Cynulliad | |
| Eitem 3&4 | Strategaethau Iechyd Meddwl Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc i. Rhestr ymgynghori arfaethedig i'w dosbarthu i'r aelodau ar gyfer sylwadau | i. Adain Iechyd Sylfaenol a Chymunedol i anfon rhestrau ymlaen i'r Clerc, cyn ymgynghori. | Ymgynghori i ddechrau canol/ diwedd mis Mawrth. |
| | ii. Strategaeth SIMPPHI i fynd at y Pwyllgor Cyn 16. | Y Cadeirydd i ysgrifennu ar unwaith at Gadeirydd pwyllgor Addysg Cyn 16 | |
| | iii. Dogfen ymgynghorol SIMPPHI i'w anfon at yr holl aelodau a thynnu sylw pob Cadeirydd Pwyllgor ati. | Yr Ysgrifennydd Cynulliad(Adain Iechyd Sylfaenol a Chymunedol) | Ymgynghori i ddechrau canol/ diwedd mis Mawrth. |
| Materion sy'n Codi | 24.11.99 (HSS-12-99) Strategaeth Iechyd Rhywiol Ymateb y Pwyllgor Cyn 16 i lythyr gan y Cadeirydd dyddiedig 2 Rhagfyr | Clerc | Llythyr a'r papurau i'w rhoi i'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, 15.12.99. Papur i'w nodi. |
| | 8.12.99 (HSS13-99) Estyniad o Gategoriâu Grwpiau sydd â hawl i Broffion Golwg am Ddim. Cynghorir yr aelodau ar ddeunydd darllen cefndir. | Prif Swyddog Meddygol ac Aelodau. Clerc i gydlynu Dyddiad terfyn - 11 Chwefror | |